Y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus
Education and Public Services Group

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein Cyf ATISN 11356

19 Gorffennaf 2017

Annwyl ,

**ATISN 11356**

Diolch i chi am eich cais am wybodaeth a ddaeth i law ar 21 Mehefin yn gofyn am restr, a chopïau o nodiadau neu gofnodion, o holl gyfarfodydd ynglŷn â Safonau'r Gymraeg mae Uned y Gymraeg wedi ymgymryd â nhw gyda'r sector gyhoeddus neu'r sector breifat ers 1 Ionawr 2014.

Amgaeir copi o'r wybodaeth i'w ryddhau.

Rwyf wedi penderfynu bod rhywfaint o'r wybodaeth wedi'i eithrio o'r gofynion datgelu o dan adran 35(1)(a) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ac felly rhaid ei chadw'n ôl. Mae'r rhesymau dros weithredu'r eithriadau hyn wedi'u nodi'n llawn yn Atodiad A y llythyr hwn.

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ateb hwn. Dylech anfon cais am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru drwy'r post i'r cyfeiriad canlynol:

Yr Uned Hawl i Wybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu drwy e-bostio FreedomOfInformationOfficer@cymru.gsi.gov.uk

Cofiwch nodi'r cyfeirnod ATISN uchod.

*Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.*

*We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.*

Mae gennych hawl hefyd i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad canlynol:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Swydd Gaer
SK9 5AF.

Fodd bynnag, dylech nodi nad yw'r Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gŵyn nes ei fod wedi bod drwy ein proses adolygu mewnol ni.

Yn gywir

Hapus i gyfathrebu'n Saesneg neu yn y Gymraeg

**Atodiad A**

Rwyf wedi penderfynu cadw'r wybodaeth ganlynol yn ôl:

| Gwybodaeth a gedwir yn ôl | Rhif yr adran ac enw'r eithriad |
|---|---|
| Nodiadau a chofnodion o gyfarfodydd | S35(1)(a) – Mae'r wybodaeth wedi'i eithrio os yw'n ymwneud â fformwleiddiad polisi Llywodraeth. |

Mae'r Atodiad hwn yn amlinellu'r rhesymau dros weithredu adran S35(1)(a) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'n hystyriaeth ddilynol o Brawf Lles y Cyhoedd.

**Gweithredu adran S35(1)(a) Fformwleiddiad polisi llywodraeth**

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylid eithrio nodiadau a chofnodion cyfarfodydd o'r gofynion datgelu. Tra bod y polisi cyffredinol ar gyfer gwneud safonau wedi'i bennu ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ("y Mesur") rydym yn parhau i ffurfio polisi ar gyfer Rheoliadau i wneud safonau'n benodol gymwys i sectorau penodol. Hyd nes bydd penderfyniadau wedi eu gwneud a'r Rheoliadau drafft wedi'u cyhoeddi rydym ni o'r farn ein bod yn parhau i fod yn y cyfnod fformwleiddiad polisi.

**Prawf Budd y Cyhoedd**

Er mwyn bodloni prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r eithriad, mae gofyn dod i'r casgliad bod y budd i'r cyhoedd o beidio â rhyddhau'r wybodaeth y gofynnwyd amdani yn *gryfach* na'r dadleuon o blaid rhyddhau'r wybodaeth.

**Dadleuon budd cyhoeddus o blaid rhyddhau'r wybodaeth**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg a'r nifer sy'n ei siarad. Mae safonau'r Gymraeg yn cynyddu'r cyfleodd i'r cyhoedd ddefnyddio'r Gymraeg o ddydd i ddydd wrth dderbyn gwasanaethau. O'r herwydd mae diddordeb gan y cyhoedd i wybod sut mae'r safonau yn cael eu gosod ar gyrff cyhoeddus ac ar gyrff yn y sector breifat.

Er y byddai rhyddhau cofnodion a nodiadau cyfarfodydd yn dangos bod Llywodraeth Cymru yn ystyried barn amrywiaeth o randdeiliaid wrth lunio'r polisi ar gyfer Rheoliadau unigol, rhaid nodi mai dim ond darn bach o'r broses yw'r cofnodion hyn a gallai eu rhyddhau fod yn gamarweiniol o'u darllen allan o gyd-destun. Byddai rhyddhau cofnodion o bosib yn helpu'r cyhoedd i ddeall y broses o lunio a fformiwleiddio polisi sy'n ymwneud â safonau'r Gymraeg.

**Dadleuon budd cyhoeddus o blaid peidio â rhyddhau'r wybodaeth**

Er mwyn i'r broses o greu Rheoliadau sy'n rhesymol a chymesur fod yn llwyddiannus mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn medru cynnal trafodaethau agored gyda rhanddeiliaid.

Rydym ni o'r farn y byddai rhyddhau'r cofnodion yma yn gwneud niwed i'r broses o greu Rheoliadau Safonau'r Gymraeg yn y dyfodol. Os byddwn yn rhyddhau cofnodion a nodiadau o'n cyfarfodydd mae'n bosib y bydd rhanddeiliaid yn amharod i gwrdd gyda ni yn y dyfodol ac yn fwy gofalus wrth rannu gwybodaeth. Byddai hyn yn ei dro yn gwneud hi'n fwy anodd i Lywodraeth Cymru baratoi Rheoliadau addas.

Yn ogystal mae yna risg y byddai'r wybodaeth a ryddhawyd yn cyfaddawdu Comisiynydd y Gymraeg pan fydd yn gosod safonau ar gyrff. Gall hyn danseilio annibyniaeth y broses o roi hysbysiadau cydymffurfio i gorff. Mae'r Mesur yn nodi'n glir nag oes gan Weinidogion Cymru unrhyw bŵer i ddylanwadu ar y broses yma.

Nid ydym o'r farn bydd rhyddhau nodiadau a chofnodion cyfarfodydd yn gwella dealltwriaeth y cyhoedd o beth fydd y safonau na sut y gwnaed y penderfyniadau arnynt. Dim ond cofnod o gyfarfod ydynt sydd ond yn rhan o ystyriaethau ehangach wrth lunio'r polisi ar gyfer safonau. O'u rhyddhau, gallent awgrymu un cyfeiriad polisi a fydd ar ôl pwyso a mesur pellach yn cael ei wrthod. Felly gallai rhyddhau'r wybodaeth arwain at ddryswch.

**Cydbwyso buddiannau'r cyhoedd**

Rydym ni o'r farn bod peidio rhyddhau'r nodiadau a'r cofnodion o'r cyfarfodydd y gofynnwyd amdanynt yn drech nag unrhyw fudd cyhoeddus o'u rhyddhau ar hyn o bryd.

Bydd gan y cyhoedd gyfle i roi sylw a chodi unrhyw bryderon sydd ganddynt am y Rheoliadau drafft a'r polisi perthnasol yn ystod ymgynghoriadau cyhoeddus. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y sylwadau a dderbynnir cyn cyflwyno Rheoliadau terfynol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol, fel y gwnaed yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus ar fersiwn drafft o Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif1) 2015. Bu hefyd newidiadau i bolisi safonau ar ôl i'r Cynulliad wrthod Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 3) 2016. Diwygiwyd rhai o'r polisïau, a chrëwyd Rheoliadau newydd i'r cyrff hynny ar ffurf Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017.